

Ceisiadau i CCAUC o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol/Deddf Gwarchod Data: apelïadau yn erbyn penderfyniadau.

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb i'ch cais am wybodaeth, cewch ysgrifennu atom i ofyn i ni gynnal adolygiad mewnol. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei wneud gan aelod uwch o'r staff na fu'n ymwneud â'r cais o'r blaen. Byddwn yn eich hysbysu o ganlyniad yr adolygiad mewnol mor fuan â phosibl.

Sut i apelïo

Ar ôl i chi dderbyn ein hymateb i'ch cais am wybodaeth, rhaid i chi apelïo o fewn dau fis calendr.

Dylech ysgrifennu atom, gan egluro pam nad ydych chi'n fodlon ar ein hymateb. Er enghraifft, mae'n bosibl ein bod ni wedi gwrthod rhoi peth neu'r cyfan o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani; efallai eich bod chi'n meddwl ein bod ni'n cymryd gormod o amser i ddarparu'r wybodaeth (dros 20 diwrnod gwaith o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu 40 diwrnod gwaith yn achos ceisiadau gwrthrychau am wybodaeth (SARs)); neu efallai eich bod chi'n teimlo y codwyd tâl arnoch yn anghywir.

Rhaid i'r apêl fod mewn ysgrifen; gallwch ei hanfon drwy'r post, ffacs neu e-bost i:

Ysgrifennydd y Cyngor
CCAUC
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffacs 029 2085 9700
E-bost info@hefcw.ac.uk

Mae gan y broses hon ddau gam posibl: yn gyntaf fe gynhelir adolygiad mewnol gan swyddogion CCAUC; yna, os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, gallwch wneud apêl at gorff allanol.

Cam un: adolygiad mewnol

Cynhelir yr adolygiad gan aelod o'n Tîm Rheoli Uwch na fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

Bydd yr adolygydd yn ystyried holl fanylion y cais a'r penderfyniad gwreiddiol, a'r rhesymau dros apelïo yn ei erbyn. Wrth wneud hyn mae'n bosibl y byddant yn siarad

â'r staff a fu'n ymdrin â'r cais gwreiddiol, yn ceisio cyngor o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, neu'n cysylltu â chi'n uniongyrchol i gael rhagor o fanylion neu eglurhad.

Ein nod yw adolygu'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith. Os na allwn roi ateb o fewn yr amser hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro'r rheswm dros yr oedi ac i roi gwybod pryd yr ydym yn disgwyl rhoi ateb.

Canlyniadau'r adolygiad mewnol

Byddwn yn cadw cofnodion llawn o'r adolygiad a'i ganlyniad.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad, ac yn sicrhau y cymerir y camau y cytunir arnynt. Mae tri chanlyniad posibl:

- caiff y penderfyniad gwreiddiol ei wrthdroi. Rhoddwn wybod i chi am y canlyniad, a'r hyn y byddwn yn ei wneud a phryd; er enghraifft, pryd y byddwn yn darparu'r wybodaeth;
- caiff y penderfyniad gwreiddiol ei newid. Yma eto, rhoddwn wybod i chi am yr hyn y byddwn yn ei wneud a phryd;
- caiff y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau. Os felly, rhoddwn fanylion ail gam posibl i chi – apêl at y corff allanol perthnasol.

Cam dau: apêl at y Comisiynydd Gwybodaeth

Cyn i chi allu apelio at y Comisiynydd Gwybodaeth, rhaid i chi fynd drwy'r cam cyntaf, sef yr adolygiad mewnol gan CCAUC. Dylech apelio mewn ysgrifen, gan egluro pam nad ydych chi'n fodlon ar ein hymateb a chanlyniad yr adolygiad mewnol. Gellir cael manylion y prosesau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – gweler y manylion cysylltu isod.

Manylion cysylltu

Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF

Gwe: <https://ico.org.uk/>
<https://ico.org.uk/global/contact-us/postal-addresses/>

Ffôn: 0303 123 1113; 01625 545 745